***Cyfarwyddyd sy'n diwygio'r amserlen ar gyfer cyflwyno mapiau rhwydwaith integredig (gyda newid canlyniadol i'r dyddiad ar gyfer cyflwyno mapiau llwybrau presennol eraill) dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013***

**Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**

**I bob cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru**

**Cyfarwyddyd sy'n diwygio'r amserlenni ar gyfer ailgyflwyno mapiau llwybrau presennol a mapiau rhwydwaith integredig**

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 4(6)(b) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ("y Ddeddf"), yn rhoi'r Cyfarwyddyd canlynol.

<u>Cefndir statudol</u>

Mae adran 3(10) o'r Ddeddf yn nodi, ar ôl i fap llwybrau presennol a baratowyd gan awdurdod lleol gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru, bod yr awdurdod lleol:

(a) yn gorfod parhau i'w adolygu,
(b) yn cael ei ddiwygio,
(c) yn gorfod ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo ar bob achlysur pan gyflwynir map rhwydwaith integredig yr awdurdod lleol ei gymeradwyo dan adran 4.

Mae adran 4(1) o'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i bob awdurdod lleol:

a) baratoi map rhwydwaith integredig,
b) a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo.

Mae adran 4(6) o'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i awdurdod lleol gyflwyno ei fap rhwydwaith integredig i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo:

a) cyn diwedd y cyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau ar y diwrnod y daw'r adran hon i rym, neu
b) os yw Gweinidogion Cymru, drwy gyfarwyddyd a roddir i'r awdurdod lleol, yn pennu dyddiad ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw fel y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid ei gyflwyno iddynt, heb fod yn hwyrach na'r dyddiad hwnnw.

Cychwynnwyd darpariaethau gweithredol y Ddeddf ar 25 Medi 2014 gan Orchymyn Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 (Cychwyn) 2014. Dan Gyfarwyddyd Gweinidogion Cymru, cyflwynwyd yr argraffiad cyntaf o'r mapiau llwybrau presennol ar 22 Ionawr 2016, a'r mapiau rhwydwaith integredig cyntaf ar 03 Tachwedd 2017.

Mae adran 4(6)(a&b) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod yr awdurdodau lleol yn cyflwyno argraffiad nesaf y map rhwydwaith integredig dair blynedd ar ôl yr argraffiad blaenorol, neu ddim hwyrach na dyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru dan Gyfarwyddyd.

Ac ystyried yr amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth awdurdodau lleol ar hyn o bryd, mae Gweinidogion o'r farn ei bod yn briodol ymestyn y dyddiad blaenorol a nodwyd ar gyfer cyflwyno'r cylch nesaf o fapiau rhwydwaith integredig a'r mapiau llwybrau presennol wedi'u diweddaru.   Ymdrinnir â hyn drwy ddilyn y Cyfarwyddyd a ganlyn.

<u>Y Cyfarwyddyd</u>

Drwy arfer eu pŵer dan adran 4(6)(b) o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru yn nodi bod yn rhaid i'r map rhwydwaith integredig y mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol ei gyflwyno dan adran 4(6) o'r Ddeddf i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo erbyn **31 Rhagfyr 2021** fan bellaf. Wrth gyflwyno ei fap rhwydwaith integredig i'w gymeradwyo erbyn y dyddiad hwn, rhaid i bob awdurdod lleol gyflwyno'r map llwybrau presennol i Weinidogion Cymru eu cymeradwyo ar yr un pryd, fel sy'n ofynnol gan adran 3(10)(c) o'r Ddeddf.



Llofnodwyd gan…………………………………

Lee Waters AS, Dirprwy Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth, ar ran Gweinidogion Cymru

Dyddiad:  14 Hydref 2020